

Esgoblyfr Bangor: Esgoblyfr Arfer Caersallog

SALLY HARPER

Un llawysgrif litwrgiaidd gyflawn yn unig sydd wedi goroesi o esgobaeth ganoloesol Bangor. Dengys arysgrif ar y llyfr y cyfeirir ato fel 'esgoblyfr Bangor' mai ei berchennog gwreiddiol oedd Anian, esgob Bangor, y gellir bellach ei ddyddio'n hyderus i chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn y llyfr ceir testunau, cerddoriaeth a chyfarwyddiadau manwl ar gyfer defodau litwrgiaidd a weinyddir gan esgob: cysegru eglwysi, allorau a mynwentydd; gorseddu a chysegru archesgob; a bendithion arbennig a roddir yn ystod canon yr Offeren ac ar adegau penodol eraill. Mae hefyd yn cynnwys seremonïau sy'n offeiriadol yn hytrach nag yn esgobol yn unig: y defodau ar gyfer diarddel yr edifeirwyr ar Ddydd Mercher y Llundw a chymodi â hwy ar Ddydd Iau Cablyd, yr eneniad olaf, cludo corff i'r eglwys, claddu a phriodi, ynghyd â grŵp o offerennau addunedol. Yn y llawysgrif ceir casgliad sylweddol o blaensiant, i gyd wedi eu copïo ar erwydd pedair-llinell, a cheir un addurniad tudalen-lawn ar ffo. 8v o esgob yn bendithio eglwys.¹ Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Bangor biau'r llyfr, ond fe'i cedwir yn awr yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor; mae Neil Ker wedi llunio crynodeb cynhwysfawr o'i gynnwys a'r manylion paleograffig.²

1 Cefndir esgoblyfrau a'u hastudiaeth

1.1 Astudiaethau hanesyddol o esgoblyfr Bangor

Nid yw esgoblyfr Bangor yn llawysgrif hawdd ei lleoli. Ar lefel ffisegol mae ynddi lawer o ruddellau sydd wedi pylu'n fawr a thudalennau coll; mae peth dirgelwch hefyd ynglŷn â'i dyddiad a'i tharddiad. Cafwyd cyfeiriadau ati mewn astudiaethau gan baleograffwyr, haneswyr celfyddyd a cherddoregwyr. Disgrifiad Ker

yw'r llawnaf a'r mwyaf dibynadwy o hyd ond gwnaethpwyd ymchwil fwy arbenigol hefyd gan L. F. Sandler, Michael A. Michael, Lynda Dennison a Thomas Kozachek.³ Fodd bynnag, ac eithrio traethawd hir diweddar anghyhoeddedig gan fyfyrwraig israddedig ar yr esgoblyfr,⁴ un erthygl yn unig, a gyhoeddwyd gan y Parch. T. J. Morris ym 1962, sy'n ymwneud yn llwyr â thrafod y llawysgrif ei hun,⁵ ac ychydig iawn o astudio a fu ar gynnwys cerddorol y llyfr. Mae'r erthygl hon yn ailarchwilio dyddiad a tharddiad esgoblyfr Bangor, ac yn cynnig dadansoddiad rhagarweiniol o natur ei repertoire cerddorol.

Mae'r esgoblyfr wedi ennyn diddordeb haneswyr ers i Browne Willis, hanesydd cyntaf yr eglwys gadeiriol, gyhoeddi disgrifiad o'r llyfr a dyfyniadau ohono dan y teitl 'The Missal or Use of Bangor' ym 1721.⁶ Cafwyd disgrifiadau mwy manwl a thrawsgrifiad yn yr 1840au gan J. Endell Tyler⁷ a William Maskell,⁸ ac ym 1868, trawsgrifiodd Alfred Stowe o Goleg Wadham Rhydychen, ddeunydd atodol pwysig ar ffo. 166.⁹

Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafwyd cynnydd cyffredinol yn y diddordeb yn nhestunau litwrgäidd yr Oesoedd Canol, a ffrwydrad o weithgarwch cyhoeddi i gyd-fynd â hyn. Cyhoeddodd nifer o haneswyr litwrgäidd o fri ffacsimiliau neu drawsgrifiadau o destunau, yn eu plith W. H. Frere, J. Wickham Legg, W. G. Henderson a Christopher Wordsworth, a detholwyd nifer o esgoblyfrau canoloesol Prydeinig i'w cyhoeddi rhwng 1847 a 1910.¹⁰ Er na fu llawysgrif Bangor erioed ymysg y rhain, astudiodd Henderson a Wordsworth lyfr Bangor fel pwynt cymhariaeth â llawysgrifau tebyg, ac argraffwyd dyfyniadau byrion o seremonïau a gweddiâu unigol fel atodiadau i dri chyhoeddiad yn ystod y cyfnod hwn.¹¹ Copïodd Henderson hefyd lawer o'r testun i'w ddefnydd ei hun: mae ei drawsgrifiad ef ar gael o hyd yn Llyfrgell Bodley fel *Ob Lat.* liturg. c.7.

1.2 Natur yr esgoblyfrau

Llunnid esgoblyfrau i'r esgobion yn unig eu defnyddio, a chan mai un copi yn unig yr oedd ei angen ar gyfer pob esgobaeth, mae llai ohonynt wedi goroesi na'r rhan fwyaf o lyfrau litwrgäidd eraill yr Oesoedd Canol.¹² O gofio'r galw cyfyngedig hwn nid yw'n syndod o bosib nad argraffwyd esgoblyfr Prydeinig erioed yn yr Oesoedd Canol diweddar, pan ddaeth argraffiadau o rai llyfrau litwrgäidd, yn enwedig rhai Arfer Caersallog, yn gyffredin iawn. Ar y llaw arall gallai sawl cenhedlaeth o esgobion fod wedi defnyddio'r un esgoblyfr. Ymddengys fod llawysgrif Anian yn parhau i gael ei defnyddio gan Richard Ednam, esgob Bangor ym 1465–94, a chofnodir iddo fod yn berchen arni dan enw Anian ar

ffo. 164v.

Oherwydd eu natur arbenigol mae cynnwys yr esgoblyfrau yn aml yn gyfyngedig. Nid oes nodiant cerddorol o gwbl yn rhai ohonynt gan na chenid mwyafrif yr eitemau cerddorol a geir mewn seremonïau esgobol (gyda rhai eithriadau megis rhagymadroddion) gan yr esgob ond gan y côr: nid oedd angen cynnwys nodiant llawn mewn gwirionedd. Felly mae'r amrediad cyflawn o eitemau côr mewn nodiant llawn ar gyfer pob seremoni a gopiwyd i lyfr Anian yn beth cymharol anarferol mewn esgoblyfr.

Yn yr un modd, efallai, mai angen a benderfynai gynnwys neu hepgor y seremonïau eu hunain. Yn aml cyfyngir cynnwys esgoblyfr i seremonïau a thestunau sy'n galw'n benodol am bresenoldeb esgob: cyflwyno, cysegru a bendithio. Mae esgoblyfr Anian yn fwy cynhwysfawr na llawer o lawysgrifau tebyg gan fod ynddo ddetholiad o seremonïau nad ydynt yn galw am esgob a welir mewn llyfrau litwrgiaidd eraill: yn aml gellir gweld testun a cherddoriaeth yr holl gyfryw seremonïau a restrir uchod yn y Llawlyfr, sef llyfr yr offeiriad yn cynnwys gwasanaethau'r plwyf.¹³

Mae esgoblyfrau yn amlwg yn llyfrau nad ydynt yn cydymffurfio â phatrwm safonol; ni ellir ychwaith eu dosbarthu bob amser i 'Arfer' litwrgiaidd penodol yn null llyfrau litwrgiaidd eraill. Cythruddwyd J. Endell Tyler gan yr awgrym y gallai esgoblyfr Anian gynrychioli Arfer Bangor mor gynnar ag 1840 pan nododd nad oedd gan y llyfr 'nothing to do with the diocese of Bangor more than with Canterbury or Durham'.¹⁴ Mae'n fwy priodol cysylltu esgoblyfr â thalaith, megis Caergaint. Fodd bynnag, gellir cymharu llyfrau ar sail y seremonïau a gynhwysir mewn esgoblyfr, y manylion bychain, ac yn arbennig efallai ar sail natur unrhyw eitemau cerddorol. Mae'r repertoire cerddorol helaeth yn llyfr Anian yn bwynt cyfeiriol o bwys wrth sefydlu ei darddiad, gan y gellir olrhain llawer o'r eitemau mewn llyfrau Prydeinig eraill (gweler isod). Mae Thomas Kozachek yn nodi y gellir dosbarthu esgoblyfrau Prydeinig yn ôl tri phrif gam 'esblygiad'. Mae llyfr Anian yn perthyn i'r cam olaf 'Eingl-Normanaid', sy'n ymgorffori dylanwadau o lyfrau Normanaid a Rhufeinig. Cynrychiolir y cam hwn hefyd gan ddwy lawysgrif arall a oroesodd: yr esgoblyfr a gysylltir â Coventry yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt (*Cu MS Ff.vi.9*, a drafodir ymhellach isod) a'r esgoblyfr tameidiog sydd ym meddiant Ardalydd Bath yn Longleat.¹⁵

2 Y Cefndir Cymreig

2.1 Y ddau esgob Bangor o'r enw Anian

Aeth prif gopiwr esgoblyfr Bangor i'r drafferth o ysgrifennu enw'r perchennog gwreiddiol ar ddalen olaf y llyfr: *Iste liber est pontificalis domini aniani bangor' episcopi*. Bu dau Esgob Anian yn y swydd yn fuan ar ôl ei gilydd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg: Anian I (1267–1305/6) ac Anian II, a adwaenid gan amlaf fel Anian Sais (1309–28). Fe'u gwahanwyd gan yr Esgob Gruffydd ab Iorwerth (1307–9). Yr oedd mwyafrif yr ysgolheigion cynharach o blaid Anian I fel perchennog gwreiddiol yr esgoblyfr, ond cadarnha ymchwil diweddarach i'r llyfr gael ei lunio pan oedd Anian Sais yn esgob, bron yn sicr rhwng 1310 a 1320 (gweler isod, tt.109–10). Fodd bynnag, mae'r cyfeiriadau diweddarach at Anian I ar y tudalennau rhwymo yn awgrymu y bu ganddo ef ran o bosib yn y digwyddiadau a arweiniodd at gynhyrchu'r esgoblyfr.

Yr oedd Anian I yn byw drwy gyfnod cythryblus y rhyfeloedd Cymreig a ddaeth i uchafbwynt yn y goncwest Edwardaidd: trafodir isod oblygiadau hyn i'r eglwys yng Nghymru, tt.115–16. Penodwyd Anian I yn esgob Bangor drwy ddylanwad Llywelyn ap Gruffudd a daeth yn gyffeswr iddo; ond fe'i gorfodwyd i esgymuno'r tywysog ym 1277 oherwydd ymdrechion Llywelyn i dra-arglwyddiaethu ar yr eglwys Gymreig. Arweiniodd hyn at alltudiaeth Anian I am ddwy flynedd dan nawdd Edward I. Er iddo ffoi yn gyntaf i Abaty St Albans, arhosodd Anian I mewn manau eraill gan gynnwys Clare yn Suffolk, prif gartref y grymusaf o farwniaid Edward I, Gilbert de Clare. Cofnodir ymweliad Anian â Clare yn 1279 yn yr esgoblyfr, ac fe'i trafodir ymhellach isod. Dychwelodd i Fangor ar ôl Cytundeb Aberconwy ym mis Tachwedd 1279, ond bu cyfnod pellach o alltudiaeth dan nawdd brenin Lloegr tan 1284.¹⁶

Ychydig a wyddom am Anian Sais, ac eithrio ei fod gynt yn aelod o gabidwl Bangor; yr oedd yn archddiacon Môn yn syth cyn ei ddyrchafu'n esgob. Ym 1313 cafodd gadarnhad o'r breintiau a roddwyd gan Edward II i esgobaeth Bangor yn amser Anian I.¹⁷ Er bod yr enw 'Sais' yn awgrymu mai gŵr o dras Seisnig ydoedd, y mae'n fwy tebygol mai llysenw ydoedd a gafodd o bosib oherwydd iddo astudio neu wasanaethu yn Lloegr neu am fod ei bolisiâu yn Seisnig.¹⁸ Fel Anian I efallai y gorfodwyd yntau hefyd i fyw yn Lloegr am gyfnod o alltudiaeth. Yn sicr fe ddaeth i'r swydd ar adeg pan anogid arferion Seisnig yn yr eglwys Gymreig.

2.2 Nodweddion Cymreig esgoblyfr Bangor

Mae'r syniad y gallai llyfr Anian gynnwys nodweddion unigryw Gymreig, a oedd efallai yn cynrychioli Arfer litwrgäidd 'coll' Bangor y cyfeiriwyd ato gan Archesgob Cranmer yn y rhagymadrodd i'r Llyfr Gweddi Gyffredin, wedi apelio at nifer o haneswyr o Browne Willis ymlaen. Mae rhagymadrodd Cranmer yn rhestru sawl Arfer neu amrywiad o ymarfer litwrgäidd cyn y Diwygiad Protestannaidd: 'there hath been great diversity in saying and singing in Churches within this Realm: some following Salisbury Use, some Hereford Use, and some the Use of Bangor, some of York, some of Lincoln'. Y mwyaf blaenllaw o'r Arferion hyn oedd Arfer Caersallog, a gynrychiolir gan lu o lyfrau a dogfennau. O ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen mabwysiadwyd Caersallog fwyfwy fel yr Arfer Prydeinig seciwlar, nid yn unig yn Lloegr, ond hefyd yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon, gan ddisodli llawer o Arferion lleol ac esgobaethol. Ceir cryn dystiolaeth hefyd am Arferion Caerefrog a Henffordd er bod llai o ffynonellau wedi goroesi. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ynglŷn ag Arferion Lincoln a Bangor yn parhau'n bryfoclyd: prin fod unrhyw dystiolaeth bendant i gefnogi awgrym Cranmer fod gan y ddwy esgobaeth eu defodau annibynnol eu hunain. Honnai William Maskell iddo ddarganfod llyfr offeren Arfer Bangor ym 1844, ond mae ei ddatleuon ef wedi mynd yn ddi-rym ers tro.¹⁹ Canolbwyntiodd haneswyr diweddarach y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ruddellau manwl yr esgoblyfr, gan nodi mân wahaniaethau o'r seremonïau a geir mewn llawysgrifau eraill tebyg, ond eto diystyrwyd yr amrywiadau hyn i raddau helaeth fel mân anghysonderau. Yn wir, y mae ymchwil diweddar ar arfer litwrgäidd yng Nghymru yn awgrymu fod yr eglwys Gymreig yn tueddu i ddilyn Lloegr yn y rhan fwyaf o'i defodau litwrgäidd, o leiaf ar ôl 1300, a chynnwys deunydd unigryw o ddiddordeb mwy lleol pan oedd ei angen yn unig. Hyd yn hyn bu'n anodd darganfod Arfer Bangor Cymreig Cranmer.

Er mor ddeniadol y byddai cael cysylltiad Cymreig, rhaid cyfaddef fod y dystiolaeth fewnol i gysylltu'r esgoblyfr ag Arfer Bangor yr un mor denau. Gwelir y prif dystiolaeth, a ddyfynnwyd eisoes, ar ffo. 164v, lle mae'r copiwr yn nodi mai Anian oedd biau'r llyfr: y mae'n debyg mai'r rhain oedd y geiriau olaf a ysgrifennodd yn y llyfr. Mewn ysgrifen redeg arall fwy neu lai gyfoes ychwanegwyd dau ddatganiad ar ffo. 166v, lle mae dau ddiakon o esgobaethau Lincoln, a Coventry a Chaerlwythgoed, yn addo peidio â tharfu ar Anian a'i olynwyr. Dyddiwyd yr ail o'r rhain 1324.²⁰ Ceir rhagor o ychwanegiadau, i gyd mewn ysgrifen o'r bymthegfed ganrif, ar ffo. 166. Mae'r rhain yn cynnwys llythyr gan John, esgob Bangor,²¹ yn esgymuno Thomas ap Howell ap Gron', a chopïau o ddau lythyr gan Esgob Anian I, a ddyddiwyd Clare (Suffolk), 1279 (gweler isod). Yr eitem olaf ar y

dudalen hon yw'r pennawd i gyfres o gyfansoddiadau coll o Fangor: *Constitutiones domini Aniani Episcopi Bangori*.²²

Er ei bod yn amlwg fod esgobion Bangor wedi defnyddio'r esgoblyfr, nid oes dim pellach yn ei ddeunydd litwrgiaidd i awgrymu cyswllt Cymreig. Mae profion i sefydlu tarddiad ffynhonnell litwrgiaidd fel rheol yn canolbwyntio ar gyfeiriadau at wyliau a seintiau 'lleol' o fewn y calendr, y sanctorale neu'r litani, ac fel y dywed Daniel Huws: 'St Deiniol, patron of Bangor and of the diocese, is the one fixture we should expect in a Bangor book'.²³ Ymhlith y seintiau eraill nodweddiadol Gymreig y gellid eu cael mewn llyfr o Ogledd Cymru y mae Dewi, Dwynwen neu Beuno. Y mae'n siomedigaeth nad oes calendr yn esgoblyfr Bangor a bod ei litani wedi ei difrodi'n arw,²⁴ ond i raddau y mae'r gyfres hir o fendithion esgobol ar ffos. 79–108, a restrir fel Tabl 1, yn gwneud iawn am y diffyg hwn. Ceir bendithion esgobol ar gyfer trigain gŵyl y sanctorale, i gyd yn nhrefn y calendr. Er bod dwy ddalen ar goll yn cynnwys gwyliau'r seintiau rhwng Ionawr ac Ebrill, nid oes unrhyw gyfeiriad at Ddeiniol (y dethlir ei ŵyl ar 11 Medi) nac at unrhyw sant Cymreig arall. Yn wir, seintiau ac iddynt gysylltiadau arbennig â Lloegr neu rai ac iddynt statws neilltuol gan Urdd y Brodyr Llwydion a gaiff bwyslais arbennig, nodweddion a drafodir ymhellach isod.

2.3 Llyfrau litwrgiaidd o darddiad Cymreig

Ar y cyfan ychydig iawn o lyfrau litwrgiaidd canolesol a gopiwyd neu a ddefnyddiwyd yng Nghymru a geir yn y casgliad o destunau Prydeinig a oroesodd.²⁵ Tri llyfr yn unig y cyfeiria Daniel Huws atynt heblaw'r esgoblyfr ac iddynt gysylltiadau ag esgobaeth Bangor. Y mwyaf arwyddocaol yw copi o lyfr offeren Caersallog a argraffwyd yn Fenis ym 1494, a oedd gynt ym meddiant Arglwydd Kenyon, ac sydd bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru; ynddo ceir ychwanegiadau llawysgrif o rannau o briodau Deiniol Sant a'r Santes Dwynwen.²⁶ Ychwanegwyd Deiniol Sant hefyd at galendr y llyfr offeren printiedig mewn llawysgrifen dan 11 Medi: *S. Danielis Maius Duplex et principa[lis]*. Awgryma Huws fod yr holl ychwanegiadau lleol hyn wedi eu gwneud gan Richard Peicke, ficer Conwy, a oedd yn berchennog y llyfr offeren erbyn 1518. Mae dwy ffynhonnell bellach hefyd yn cyfeirio at seintiau lleol: mae Orlyfr Llanbeblig o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn cynnwys Deiniol a Pheblig yn ei galendr a Dwynwen yn ei litani; ac

Tabl 1: Y Seintiau a gynhwysir yn y gyfres o fendithion esgobol

		Ffolio	Cyfatebiaethau ¹
Seintiau Temporale			
San Steffan	26 Rhagfyr	81r	ECS
Sant Ioan yr Efengylwr	27 Rhagfyr	81r	ECS
Y Gwirioniaid	28 Rhagfyr	81v	ECS
Sant Tomos, merthyr	29 Rhagfyr	81v	ES
Sant Silvester, pab	31 Rhagfyr	82r	ES
Seintiau Sanctorable			
Gwynnos Sant Andreas, apostol	29 Tachwedd	95r	ECS
Sant Andreas, apostol	30 Tachwedd	95r	ECS
Sant Nicolas, esgob	6 Rhagfyr	95r	ES
Dygwyl Fair Pan Gad	8 Rhagfyr	95v	ES
Y Santes Luwsi, gwryf a merthyr	13 Rhagfyr	95v	ES
Sant Tomos, apostol	21 Rhagfyr	95v ²	ES
Sant Philip a Sant Iago	1 Mai	96r	ES
Caffael y Grog	3 Mai	96r	ECS
Sant Ioan <i>ante portam latinam</i>	6 Mai	96r	ES
Sant Mihangel <i>in monte tumba</i>	8 Mai	96v	
Sant Dunstan, cyffeswr	19 Mai	96v	ES
Trosglwyddo Sant Ffransis	24 Mai	96v	
Sant Awstin <i>anglorum</i>	26 Mai	97r	ECS
Sant Barnabas, apostol	11 Mehefin	97r	ES
Sant Antwn Gyffeswr	13 Mehefin	97r	
Gwynnos Sant Ioan Fedyddiwr	23 Mehefin	97v	ECS
Sant Ioan Fedyddiwr	24 Mehefin	97v	ECS
Gwynnos Sant Pedr a Sant Paul	28 Mehefin	97v	ECS
Sant Pedr a Sant Paul, apostolion	29 Mehefin	97v	ECS
Dygwyl Sant Paul	30 Mehefin	98r	ES
Trosglwyddo Sant Tomos, merthyr	7 Gorffennaf	98r	E
Y Santes Margaret, gwryf	20 Gorffennaf	98r	ES
Y Santes Mair Magdalen	22 Gorffennaf	98v	ES
Sant Iago, apostol	25 Gorffennaf	98v	ES
Sant Pedr <i>ad vinculam</i>	1 Awst	98v	ES
Caffael San Steffan	3 Awst	99r	ES
Sant Dominic, cyffeswr	5 Awst	99r	
Gwynnos Sant Lawrens	9 Awst	99r	ECS
Sant Lawrens	10 Awst	99r	ECS
Y Santes Clare, gwryf	12 Awst	99v	
Gwynnos Dyrchafael Mair	14 Awst	99v	ES
Dyrchafael Mair	15 Awst	99v	ECS
Sant Bernard	20 Awst	100r	ECS
Sant Bartholomeus	24 Awst	100r	ECS
Sant Awstin, esgob Hippo	28 Awst	100r	ES

Dienyddio Sant Ioan Fedyddiwr	29 Awst	100r	ECS
Gŵyl Fair Pan Aned	8 Medi	100v	ECS
Dyrchafiad y Groes	14 Medi	100v	ECS
Sant Mathew, efengylwr	21 Medi	100v	ES
Sant Mihangel Archangel	29 Medi	101r	ECS
Sant Sierôm	30 Medi	101r	ES
Sant Ffransis	4 Hydref	101r	S (ffynonellau cynnar)
Sant Denis	9 Hydref	101r	ES
Sant Edward Frenin	13 Hydref	101v	ES (ffynonellau diweddarach)
Sant Luc, efengylwr	18 Hydref	101v	ES
Sant Simon a Sant Jwdas	28 Hydref	101v	ES
Gwynnos yr Holl Saint	31 Hydref	102r	ES
Dygwyl yr Holl Saint	1 Tachwedd	102r	ECS
Sant Martin	11 Tachwedd	102r	ECS
Sant Edmund o Gaergaint	16 Tachwedd	102v	ES
Sant Huw	17 Tachwedd	102v	ES (ffynonellau diweddarach)
Sant Edmund, brenin a merthyr	20 Tachwedd	102v	ES
Y Santes Cicilia	22 Tachwedd	102v	ES
Sant Clement	23 Tachwedd	103r	ECS
Y Santes Catrin	25 Tachwedd	103r	ES

Nodiadau i Dabl 1

- ¹ Nodir y dyddiadau cyfatebol ar gyfer y gwyliau hyn gan y codau canlynol:
 E: Esgoblyfr Richard Lacy, Esgob Caerwysg
 C: Esgoblyfr Coventry (*Cu* MS Ff.vi.9)
 S: Arfer Caersallog

² Mae'r ddwy ddalen a ddilynai ffo. 95 yn wreiddiol ar goll o esgoblyfr Bangor. Fodd bynnag, gellir tybio fod cyfres Bangor yn ymgorffori'r bendithion ychwanegol sy'n ymddangos yn esgoblyfr Lacy yn y fan honno:

Y Santes Agnes, gwryf (21 Ionawr)
 Sant Finsent (22 Ionawr)
 Troedigaeth Sant Paul (25 Ionawr)
 Gŵyl Fair y Canhwyllau (2 Chwefror)
 Y Santes Agatha (5 Chwefror)
Cathedra Petri (22 Chwefror)
 Sant Mathias, apostol (24 Chwefror)
 Sant Grigor, pab (12 Mawrth)
 Sant Bened, abad (21 Mawrth)
 Gŵyl Fair y Cyhydedd (25 Mawrth)
 Sant Rhisiart, esgob (3 Ebrill)
 Sant Alphege, merthyr (19 Ebrill)
 Sant Marc, efengylwr (25 Ebrill)

mae ffynhonnell dameidiog arall o Lanbeblig sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif yn cynnwys rhestr hir o seintiau Cymreig yn ei litani: Peblig, Deiniol, Beuno, Mwrog, Tanwg, Brothen, Tecwyn, Hillary, Cybi, Gallgo, Gredifael, Peris, Baglan, Gwnda, Aelhaearn, Pedrog, Dwynwen, Melangell a Cheinwen.²⁷

Heblaw esgoblyfr Bangor, un llawysgrif litwrgiaidd arall yn unig o darddiad Cymreig sydd â chynnwys cerddorol sylweddol, sef antiffonari Penpont o'r bedwaredd ganrif ar ddeg (AB MS 20541 E), y trafodwyd ei hanes a'i gynnwys yn helaeth gan Owain Edwards.²⁸ Hwn yw'r unig antiffonari Cymreig ar glawr y gwyddys iddo oroesi, a'i nodwedd fwyaf arwyddocaol yw ei fod yn cynnwys gwasanaeth unigryw Dewi, nawddsant Cymru. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg fod y gwasanaeth hwn wedi ei lunio ar gyfer sefydliad Cymreig, mae'r llyfr ei hun yn perthyn yn glòs i Arfer Caersallog. Mae testunau ac alawon mwyafrif y gwasanaethau yn y llyfr yn debyg iawn i'r fersiynau mewn llawysgrifau eraill Caersallog a oroesodd, ac mae'n bosibl na chynhyrchwyd y llyfr yng Nghymru hyd yn oed.²⁹ Ac eithrio'r gwasanaeth atodol, colect i'r Santes Gwenfrewi a ychwanegwyd ar ymyl tudalen, a chynnwys Sant Iwstinian (Sustinian) yn y litani nid oes rhagor o ddeunydd Cymreig: ni chynhwysir Dewi Sant yn y litani ac ni cheir cyfeiriadau eraill at seintiau Cymreig (er, yn debyg i lyfr Bangor, nad oes calendr wedi goroesi).³⁰ Awgryma'r dystiolaeth nad yw antiffonari Penpont yn nemor ddim mwy na llawysgrif o deulu Caersallog sy'n digwydd cynnwys deunydd atodol i'w ddefnyddio yng Nghymru, a rhaid cofio'r gwreiddiau Caersallog hyn wrth ystyried llyfr Bangor.

Cadarnheir y ffaith fod Arfer Caersallog wedi ei chyflwyno fel yr Arfer swyddogol yn o leiaf un o'r esgobaethau Cymreig gan dair cyfres annibynnol o statudau a luniwyd yn Nhyddewi yn ystod y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Ym 1224 gwnaeth yr Esgob Iorwerth un o'r cyfeiriadau cyntaf hysbys at Arfer Caersallog y tu allan i'r esgobaeth honno drwy bennu y dylai defodau addunedol er anrhydedd i Fair Forwyn a'r meirw ddilyn trefn gwasanaeth Caersallog (*servitium etiam de Sancta Maria et servitium pro defunctis fiat secundum ordinale Ecclesiae Sarum*).³¹ Yn yr un modd ym 1253, pennodd yr Esgob Thomas Wallensis, 'On entrance to the choir and exit therefrom the bishop wishes and orders to be observed in his church the manner and rule of the church of Salisbury, until a more useful can be provided by him or another, if the Lord wishes.'³² Ac eto ym 1368 anogodd yr Esgob Adam Houghton y ficeriaid corawl i ddilyn Arfer Caersallog yn yr holl wasanaethau.³³ Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddiadau hyn i gyd yn awgrymu fod Tyddewi yn dilyn rhyw arfer litwrgiaidd arall cyn dechrau mabwysiadu arfer Caersallog yn y drydedd ganrif ar ddeg.

3 Cysylltiadau ag East Anglia

3.1 Isarlunydd y Frenhines Mari

Er na welir unrhyw nodweddion lleol Cymreig yng nghynnwys esgoblyfr Anian, nid yw'n gwbl amddifad o nodweddion 'lleol' o ran arall o Brydain. Mae'n bur debyg fod y llyfr wedi ei gynhyrchu yn East Anglia oherwydd gwelir ynddo nifer o nodweddion sy'n awgrymu patrwm o East Anglia. Cydnabuwyd ers peth amser fod gan yr unig addurniad yn yr esgoblyfr gysylltiad clòs â llawysgrifau Ysgol Sallwyr y Frenhines Mari ['Queen Mary Psalter School'] fel y gelwid hi, a gynhyrchwyd i gyd rhwng 1310 a 1330 gan grŵp o arlunwyr hynod dan arweiniad y 'Queen Mary Master' yr oedd ei yrfa wedi'i chanoli yn Llundain yn bennaf. Mae mwy nag ugain o'r cyfryw llawysgrifau wedi goroesi, a ysgrifennwyd ar gyfer perchenogion clerigol, seciwlar, bourgeois, bonheddig a brenhinol neu a gysylltir â hwy.³⁴

Esgorodd astudiaeth o llawysgrifau grŵp y Frenhines Mari gan Lynda Dennison a Michael A. Michael yn y 1980au cynnar ar dystiolaeth gadarn fod llawer o'r llyfrau wedi eu cynhyrchu, nid yn Llundain ond gan arlunwyr yn gweithio yn East Anglia neu'r cyffiniau. Sylwa Michael fod defodau litwrgiaidd esgobaethau Norwich, Ely a Lincoln yn chwarae rhan arwyddocaol yn rhai o'r llawysgrifau ac yr ategir y tarddiad hwn yn aml gan wybodaeth ynglŷn â'r noddwyr neu'r perchenogion.³⁵ Dengys cymariaethau â llawysgrifau eraill fod y miniatur yn esgoblyfr Anian hefyd wedi ei wneud gan arlunydd o'r grŵp hwn a elwir yn 'isarlunydd' y Frenhines Mari ('Subsidiary Queen Mary Artist') gan Dennison.³⁶ Yr oedd gan yr arlunydd hwn yntau gysylltiadau cryf â'r Ffendir, yn enwedig esgobaethau Norwich ac Ely, ac er iddo o bosib fod wedi dechrau ei yrfa yn Llundain, neu gael cysylltiadau ag East Anglia tra oedd yn y brifddinas, y mae'n sicr ei fod yn gweithio yn East Anglia o leiaf rhwng tua 1315 a 1320.³⁷

Noda Michael A. Michael fod arlunydd miniatur Bangor hefyd yn gyfrifol am y cylch rhagarweiniol o ddarluniau yn orlyfr Alice de Reydon (*Cu MS Dd.iv.17*) ac efallai iddo weithio hefyd ar sallwyr Stiucle (*Ccc MS 53*) a llyfr offeren Sherbrooke (*AB MS 15536*). Ceir yr un nodweddion cyffredin yn ei holl waith: yn y ffigurau mae'r pennau'n fychain ac yn hir ond mae'r cyrff yn gymesur iawn; ychydig o fynegiant sydd yn y wynebau, ac yn aml fe'u portreadir mewn golwg dri-chwarter gydag un glust yn dangos. Dengys esgoblyfr Bangor a llyfr offeren Sherbrooke was offeiriad yn gwisgo gwenwisg hir a'i ben ar olwg dri-chwarter nodweddiadol. Tuedda'r dillad i fod yn llawn gydag ymylon pendant iawn i'r gwisgoedd. Mae ffrâm miniatur Bangor yn union yr un fath â'r rhai yn orlyfr Reydon, tra bo'r borderi yn gyfyngedig eu harddull. Mae Dennison hefyd yn cyfeirio at 'wavy trefoils, clovers,

heart-shaped leaves, and the occasional use of paired daisy buds . . . the palette . . . is characterized by an abundant use of bright orange and viridian pigments, to which a textured line of white is applied for border decoration.³⁸

Mae'r sylwadau manwl hyn ynglŷn â'r addurniad yn gymorth i bennu dyddiad mwy cywir ar gyfer esgoblyfr Anian. Noda Michael y byddai addurniad y llyfr yn anarferol iawn pe bai wedi ei wneud cyn 1306; fodd bynnag, mae'n debygol ei fod wedi ei gwblhau erbyn 1324, a chymryd yr ychwanegiadau dyddiedig ar ffo. 166v a nodwyd uchod. A thybïo fod prif gorff y llyfr yn gyfoes â'r addurniad, y mae'n debygol fod yr esgoblyfr wedi ei gopiïo rhwng tua 1310 a 1320; mae hyd yn oed yn bosibl fod y llyfr wedi ei baratol i ddatlu cysegru Anian Sais yn esgob Bangor ym 1309.

3.2 Y Santes Etheldreda

Nid yw'r cysylltiad ag East Anglia wedi ei gyfyngu i'r addurniad gan fod eitem a gynhwysir ar ffo. 120 yn y seremoni ar gyfer cysegru gwryfon (ffos. 117–21) yn awgrymu fod y copïwr yn cyfeirio at batrwm o East Anglia. Nid yw'r testun, lle mae lleian Fenedictaidd newydd yn tyngu llw o ffyddlondeb i'w chwfaint, yn anghyffredin mewn esgoblyfrau Prydeinig: fe'i gwelir mewn sawl llawysgrif, fel rheol gyda bylchau i'r esgob lenwi enwau a lleoedd fel oedd yn briodol. Fodd bynnag, o bosib oherwydd i'w feddwl grwydro, mae copïwr llyfr Bangor wedi ysgrifennu'r geiriau disgrifiadol *sanct' Etheldreda*. Yn rhyfedd iawn, ymddengys fod pawb sydd wedi gweithio ar yr esgoblyfr wedi anwybyddu'r cyfeiriad arwyddocaol hwn, ac eithrio Henderson a argraffodd y testun dan sylw (heb sylwadau) mewn atodiad i'w argraffiad o esgoblyfr Caerefrog ym 1875:

*Ego Soror N. promitto stabilitatem meam et conversionem morum meorum et obedientiam secundum regulam S. Benedicti coram deo et sancti ejus in hoc monasterio quod est constructum in honore dei et sancti Etheldreda in presentia Domini N. Episcopi et Domina N. abbatissae.*³⁹

Ysgogwyd cwlt Etheldreda, a sefydlodd yr abaty yn Ely yn y seithfed ganrif ac a ddaeth wedyn yn frenhines Northumbria, yn East Anglia yn y drydedd ganrif ar ddeg gan yr Esgob Northwold o Ely, yn dilyn adfer ei chreirfa i seintwar priordy'r eglwys gadeiriol ar ôl ei ailadeiladu (1252).⁴⁰ Anaml y ceir cyfeiriad ati y tu allan i East Anglia. Fodd bynnag, ceir yr eithriad nodedig o dŷ'r canonesau Awstinaidd yn Canonsleigh, Dyfnaint, a sefydlwyd gan Maud de Clare, Iarlles weddw Caerloyw, erbyn 1285: ychwanegwyd Etheldreda at y cyflwyniad

gwreiddiol i'r Fendigaid Forwyn Fair a Sant Ioan Fedyddiwr pan ddaeth y sefydliad newydd yn lle sefydliad cynharach y canoniaid Awstinaidd.⁴¹

Ymddengys nad oedd gan Fangor unrhyw gysylltiad ffurfiol amlwg ag Ely. Fodd bynnag, ar ryw gyfnod rhwng 1286 a 1290, ysgrifennodd Roger de Piuelsesdon, siryf Môn o 1284 hyd 1294 at John Kirkby, esgob Ely, yn ei hysbysu 'all the men of Weniz [Gwynedd] greatly love the bishop, and thank him above all others for the good will that they have always found in the bishop, and much desire that he come among them. Roger himself wishes that the bishop would come, for his coming would be profitable to the king and to all the people'.⁴² Mae'n debyg y byddai ymweliad o'r fath, os digwyddodd o gwbl, wedi bod yn ystod yr adeg pan oedd Anian I yn esgob, ond gallai fod yn awgrym o gysylltiad anffurfiol.

3.3 Clare

Cadarnheir y cysylltiad ag ardal East Anglia ymhellach gan ddeunydd a ychwanegwyd ar dudalen rwympo'r esgoblyfr rywdro yn y bymthegfed ganrif. Yn ffo. 166 ceir manylion am drefniant a wnaethpwyd gan Anian I â thŷ'r brodyr Awstinaidd yn Clare yn Suffolk ym 1279. Cofnodwyd dau lythyr gan Anian ar y ddalen hon, yn addo penyd i unrhyw un a weddïai am enaid Richard Christeshale o Clare neu a gyfrannai at atgyweirio'r tŷ yn Clare: dyddiwyd y ddau lythyr yn Clare, 25 Ebrill, 1279. Ceir fersiwn llawnach o'r llythyrau mewn cartwlari o'r bymthegfed ganrif yn Clare; mae pob un yn cychwyn drwy ymbil ar y Forwyn, Sant Pedr a Sant Paul a Deiniol Sant.⁴³ Yn y mis hwn yr oedd Anian yn parhau i ddiodef cyfnod o ddwy flynedd o alltudiaeth o'i esgobaeth ei hun; ni wyddys ei union symudiadau rhwng 1277 a Thachwedd 1279, er iddo ffoi yn gyntaf i St. Albans.

Clare oedd prif dŷ'r brodyr Awstinaidd yn Lloegr, a dywedir mai hwn oedd tŷ cyntaf yr Urdd i'w sefydlu ym Mhrydain. Fe'i sefydlwyd gan Richard de Clare, Iarll Caerloyw, ym 1248: yr oedd ei safle uchel a'i gyfoeth ef, ynghyd â'r ffaith mai Clare oedd cartref gwreiddiol yr Urdd yn Lloegr, yn rhoi'r brodordy mewn sefyllfa braidd yn anarferol. Yr oedd cysylltiadau brenhinol cryf i Gastell Clare hefyd: hwn oedd un o'r manau mwyaf poblogaidd ar gyfer ymweliadau brenhinol yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a daeth merch Edward I, Joan o Acre, yn ail wraig i Gilbert de Clare ym 1290.⁴⁴ Yr oedd 1279 yn flwyddyn bwysig i frodyr Clare, pan gyhoeddodd yr Esgob William Middleton o Norwich drwydded i gysegru eu mynwent: comisiwn a gyflawnwyd gan Anian I.⁴⁵ Mae cartwlari Clare hefyd yn awgrymu fod y brodordy yn rhoi benthyg llyfrau i frodordai cyfagos: benthyciodd y

Brawd Thomas o Crymplesham a'r Brawd William o Yarmouth ill dau lyfrau gwasanaeth o Clare ym 1328 a 1318 yn y drefn honno. Cymerodd T. J. Morris hyn fel tystiolaeth fod Clare yn ganolfan o bwys ar gyfer cynhyrchu llyfrau; fodd bynnag, nid oes dim i awgrymu fod esgoblyfr Bangor wedi ei gynhyrchu yn Clare, nid oes ychwaith dystiolaeth fewnol am gysylltiad litwrgiaidd â'r brodyr Awstinaidd.⁴⁶

Ac eithrio ymweliad Anian ym 1279, nid oes cofnod am gysylltiad ffurfiol rhwng Bangor a Clare yn y drydedd ganrif ar ddeg. Fodd bynnag, ym mlynnyddoedd hwyr y bymthegfed ganrif yr oedd coleg cyfagos yr offeiriaid seciwlar yn Stoke by Clare (a sefydlwyd ym 1415–19 gan ddisodli'r priordy Benedictaidd yno) yn sicr wedi datblygu perthynas â Bangor. Rhwng 1470 a 1493 ei ddeon oedd neb llai na pherchennog yr esgoblyfr yn ddiweddarach, sef Richard Ednam, esgob Bangor 1465–96. Mae'n debyg fod praidd Ednam yn parhau i wneud y bererindod i Clare yn ystod y blynyddoedd hynny o gofio ailadrodd yn y bymthegfed ganrif gytundeb gwreiddiol Anian I yng nghefn ei esgoblyfr.

4 Y cysylltiad â'r Brodyr Llwydion

4.1 Y bendithion esgobol

Cyfeiriwyd eisoes at y gyfres arbennig o fendithion esgobol a gynhwyswyd yn yr esgoblyfr ar ffos. 79–108 (Tabl 1). Cyhoeddid bendithion o'r fath gan yr esgob o fewn canon yr offeren ar y Suliau a'r gwyliau drwy gydol y flwyddyn litwrgiaidd. Yr oedd y gyfres o fendithion yn llyfr Anian yn cynnwys cymaint â 200 o eitemau; collwyd tua dwsin pan ddaeth dwy dudalen yn rhydd. Gan ddechrau â'r Adfent, mae'r drefn yn ôl trefn gaeth y calendr ar gyfer y temporale a'r sanctorale. Nid yw'r copïwr wedi nodi unrhyw ddyddiadau calendr, ond gellir yn hawdd gyflenwi dyddiadau naw a deugain o'r hanner cant a phum gŵyl sanctorale (fel yn Nhabl 1) o'r calendr Caersallog cyfoes.

Nid yw 193 o'r bendithion yn unigryw i esgoblyfr Anian. Ceir cyfres sydd fwy neu lai yn union yr un fath yn esgoblyfr Richard Lacy, esgob Caerwysg (1420–55) sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg neu ddechrau'r bymthegfed ganrif. Cwyd y prif wahaniaethau rhwng y ddwy gyfres o'r tudalennau coll, ac eithrio saith bendith sy'n unigryw i lawysgrif Anian. Yn esgoblyfr Lacy hefyd ceir rhagair i'r bendithion sy'n cydnabod y golygydd: *edite a venerabili patre, fratre Johanne de Pecham archiepiscopo, Cantuariensi*. Yr oedd Pecham yn berson o gryn bwys ac iddo ei le ei hun yn y jig-so esgobol (gweler isod tt.115–16). Ymddengys ei fendithion hefyd mewn nifer fechan o esgoblyfrau

Prydeinig diweddarach wedi eu rhagflaenu â chydabyddiaeth debyg o'r golygydd.⁴⁷

Ni cheir unrhyw fendithion 'Cymreig' yn unrhyw esgoblyfr sy'n cynnwys cyfres Pecham. Fodd bynnag, cynrychiolir sawl sant nodweddiadol Seisnig, gan gynnwys Thomas o Gaergaint (dau ymddangosiad; canoneiddiwyd 1173, trosglwyddwyd 1220), Dunstan (a gysylltid yn bennaf â Chaergaint, Ynys Wydrin a Chaerwrangon), Awstin o Gaergaint, Edward y Cyffeswr (cysylltiad ag Ely a Westminster; canoneiddiwyd 1161), Edmund, archesgob Caergaint (cysylltiad hefyd â Rhydychen; canoneiddiwyd 1246), Hugh o Lincoln (canoneiddiwyd 1220) ac Edmund frenin a merthyr (cysylltiadau ag East Anglia, ac yn enwedig â Bury St Edmunds). Mae cyfres Lacy hefyd yn cynnwys Richard o Chichester (canoneiddiwyd 1262) ac Alphege (a gysylltid â Chaergaint a Chaer-wynt): yr oedd bendithion ar gyfer y seintiau hyn o bosib wedi eu cynnwys ar dudalennau coll llyfr Anian. Eto ni wyddys fod gan yr un o'r seintiau Seisnig hyn unrhyw arwyddocâd arbennig yng Nghymru, er y ceir cyfeiriad penodol at Sant Thomas o Gaergaint mewn llythyr a ddyddiwyd 1295 at Anian I oddi wrth Robert, archesgob Caergaint, yn gorchymyn cynnal offerennau a litanïau arbennig drwy esgobaeth Bangor dros y Wlad Sanctaidd a llwyddiannus gyflwr y brenin a'r deyrnas.⁴⁸

Nodwyd y saith bendith sy'n unigryw i esgoblyfr Anian yn gyntaf gan Christopher Wordsworth, a'u hargraffodd fel atodiad i'w olygiad o esgoblyfr David de Bernham ym 1885. Trafodwyd hwy hefyd gan T. J. Morris, a sylwodd yn hollol gywir fod gan bob un o'r saith gŵyl gysylltiadau â diwygio litwrgïaidd y Brodyr Llwydion. Un yn unig o'r saith gŵyl a gynrychiolir yng nghalendr cyfoes Caersallog, ac ni chanoneiddiwyd tri o'r seintiau tan ar ôl 1230. Y saith gŵyl a gynrychiolir yw Sant Mihangel *in monte tumba*, Sant Ffransis (trosglwyddiad a phrif ŵyl), Sant Antwn o Padova, Sant Dominic, y Santes Clare a Sant Bernard. Nid oedd Sant Dominic a Sant Bernard o Clairvaux yn Frodyr Llwydion eu hunain ond fe'u cynhwysid yng nghalendr diwygiedig y Brodyr Llwydion.

Yr oedd gan Sant Mihangel ddwy ŵyl yn Arfer Caersallog: 29 Medi (y brif ŵyl) ac 16 Hydref (gŵyl Mihangel *in monte tumba*, yn dathlu ei ymddangosiad ym Mont-St-Michel yn Normandi). Mae llyfr Anian yn cynnwys y ddwy ŵyl ond yn rhoi'r olaf rhwng Ioan gerbron y Porth Lladin (6 Mai) a Sant Dunstan (19 Mai). Byddai hyn yn cyfateb i galendr diwygiedig y llys Pabaidd o'r drydedd ganrif ar ddeg ac Urdd y Brodyr Llwydion sy'n pennu 8 Mai fel dyddiad Sant Mihangel *in monte tumba*: mae'n wahanol i'r dyddiad Caersallog mwy cyffredin gan ei fod yn dathlu ymddangosiad Sant Mihangel ym Monte Gargano yn Apulia.⁴⁹

Mae Sant Ffransis, a fu farw ym 1226 ac a ganoneiddiwyd ym 1228,

hefyd yn ymddangos ddwywaith: ni cheir ei brif ŵyl ar 4 Hydref yn llyfr Lacy, er ei bod i'w gweld mewn calendrau cynharach Caersallog, a hefyd yn rhai Caerefrog a Henffordd. Ni cheir ei drosglwyddiad (24 Mai) yn yr un o'r calendrau Prydeinig hyn; fodd bynnag yn 1260 fe'i hychwanegwyd at galendr diwygiedig y Brodyr Llwydion gan Haymo o Faversham, Pennaeth Cyffredinol Urdd y Brodyr Llwydion o 1240, a ddiwygiodd yr ordinalau ar gyfer y brefiari a'r llyfr offeren Rhufeinig ar gais y Pab Innocent IV. Ceir manylion am ŵyl trosglwyddo Sant Ffransis ym mrefiari Haymo o 1243–4. Felly hefyd y mae Sant Antwn o Padova (13 Mehefin), Sant Dominic (5 Awst), y Santes Clare (12 Awst) a Sant Bernard o Clairvaux (20 Awst) ar goll gan Lacy ac o galendr cyfoes Caersallog ond ychwanegwyd pob un at galendr Haymo ym 1260. Y mae'n werth nodi mai yn esgoblyfr Anian y ceir ymddangosiad cyntaf bendith y Santes Clare, sylfaenydd y Clariaid Tlodion, nas canoneiddiwyd tan 1255.⁵⁰

Seiliwyd craidd cyfres Pecham o fendithion yn ôl pob tebyg ar galendr Caersallog, tra bod saith gŵyl Ffransisgaid arall yng nghyfrwl Bangor yn awgrymu dylanwad Urdd y Brodyr Llwydion neu ryw gysylltiad â'r Urdd honno. Dylid sylwi hefyd fod y litani a gynhwysir ar ffo. 142v fel rhan o'r seremoni ar gyfer rhoi cymun i'r cleifion hefyd yn pwysleisio Ffransis, a'i fod ef, ynghyd â Bened, yn dilyn rhestr o seintiau mwy arferol y litani: Pedr, Paul, Andreas, Steffan a Silfester. Dehonglodd Morris yr elfen Ffransisgaid hon drwy awgrymu fod yr esgoblyfr wedi ei gopïo gan y Brodyr Llwydion yn Llanfaes ger Biwmares, unig dŷ'r Brodyr Llwydion yng ngogledd Cymru: dadleuodd mai mes oedd yr addurniadau ar gorneli darlun ar ffo. 8v mewn gwirionedd, a bod y gair Cymraeg *mes* yn llunio pos ar y gair *maes*, yn deillio o Lanfaes. Honnai hefyd fod gan yr esgob yn y darlun wisg Ffransisgaid dan ei gôb. Y mae'n bur bosibl fod Brodyr Llwydion Llanfaes wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar yr hinsawdd litwrgiaidd gyfnewidiol yn esgobaeth Bangor, ond rhaid gwrthod damcaniaeth Morris am gysylltiad uniongyrchol â'r esgoblyfr: mae'r addurniad o fes (neu flagur llygad y dydd) i'w weld mewn llawer o lawysgrifau eraill y Frenhines Mari hefyd.⁵¹

Nid ymddengys fod unrhyw reswm amlwg i Anian I nac Anian Sais ofyn yn benodol am gynnwys bendithion ar gyfer saith gŵyl 'Ffransisgaid' mewn esgoblyfr newydd. Y mae'n fwy tebygol fod yr eglurhad i'w gael yn y patrwm a chyda rhyw unigolyn dylanwadol arall a fu â rhan yn llunio cynnwys esgoblyfrau Prydeinig yn y drydedd ganrif ar ddeg. Un ymgeisydd amlwg yw John Pecham, archesgob Caergaint o 1279 i 1292.

4.2 Rhan John Pecham

Sylwyd eisoes ar ran John Pecham fel golygydd y bendithion esgobol mewn nifer fechan o esgoblyfrau diweddarach, gan gynnwys un Richard Lacy. Y mae'r gyfatebiaeth glòs rhwng bendithion Lacy a Bangor yn cadarnhau fod y ddau wedi dilyn yr un model, er na chydabyddir golygyddiaeth Pecham yn llyfr Anian, ac mae'r saith eitem Ffransisgaidd y tu allan i'r gyfres arferol. Fodd bynnag, yr oedd Pecham ei hun yn aelod blaenllaw o Urdd y Brodyr Llwydion a chanddo gysylltiadau â Pharis a Rhydychen: daliodd y gadair Ffransisgaidd mewn diwinyddiaeth ym Mharis o tua 1269 hyd tua 1271. Yr oedd hefyd yn ddylanwadol ym maes diwygio'r litwrgi, a gwyddys iddo lunio Gwasanaeth ar gyfer Gŵyl y Drindod Sanctaidd.⁵² Fel rhan o'i ddiwygiadau ysgubol fel archesgob, mae'n bosibl fod Pecham wedi galw am safoni'r esgoblyfr a ddefnyddid yn nhalaith Caergaint ac wedi llunio rhestr 'swyddogol' o fendithion. Awgrymodd Thomas Kozachek mai Pecham o bosib a ysgogodd ddwyn elfennau 'Pabyddol' amlwg i mewn i'r esgoblyfrau 'cam tri' arbennig a grybwyllwyd uchod.⁵³

Erbyn adeg cwmp Llywelyn ym 1282, cymathwyd Cymru i Dalaith Caergaint, ac ym Mehefin hyd Awst 1284, dechreuodd Pecham ymweld â holl eglwysi cadeiriol Cymru. Dilynodd Edward I a'r Frenhines Elinor yn syth wedyn ar daith frenhinol drwy Gymru. Brawychwyd Pecham gan gyflwr yr eglwys Gymreig yn dilyn y rhyfeloedd diweddar. Yr oedd gwisg glerigol yn amhoblogaidd: gwisgai gwŷr eglwysig Cymru fentyll lliwgar rhesog, tiwnigau llachar, yr oedd eu gwallt yn hir a'u coesau'n noeth, a meddwi yn beth cyffredin iawn.⁵⁴

Bwriad Pecham oedd ad-drefnu'r eglwys Gymreig i gydymffurfio cyn belled â phosibl â'r eglwys yn Lloegr. Ar 25 Mehefin 1284, cyrhaeddodd Fangor a rhoddodd orchmynion i'r offeiriaid. Nid yw'r rhain wedi goroesi, ond tybir eu bod yn debyg i'r rhai a roddwyd i Lanelwy, a oedd yn gorfodi disgyblaeth o ran gwisg glerigol, ymddygiad, dibriodrwydd a chadw'r gwasanaethau.⁵⁵ Yr oedd cabidwl Llanelwy i fod yn fodel ar gyfer gweddill yr esgobaeth. Yr oedd tai newydd i'r canoniaid i'w hadeiladu o gwmpas yr eglwys gadeiriol i sicrhau eu bod i gyd yn mynychu'r offerennau a'r gwasanaethau, ac yr oedd yn rhaid gwisgo cychyllau ac amisiau yn y côr a'r clas yn unol ag arfer talaith Caergaint.⁵⁶ Awgryma Douie mai'r prif faen tramgwydd i ddiwygiadau Pecham yng Nghymru oedd 'the gross ignorance of both clergy and laity . . . as Pecham bluntly informed the bishops, he had never in his life seen such general illiteracy: *Tam illiteratos sacerdotes et clericos nusquam meminimus nos vidisse*.⁵⁷ Atgoffwyd yr offeiriaid hefyd o'u dyletswydd i ymdrechu i gymodi'r Cymry a'r Saeson.

Pwysleisia Glanmor Williams effaith Pecham ac Edward I ill dau ar y modd y diwygiwyd ac yr ailstrwythurwyd yr eglwys yng Nghymru.⁵⁸ Trafodasant â'i gilydd ailadeiladu a thrwsio'r eglwysi a ddifrodwyd, gan gynnwys adfer yr addurniadau, y gwisgoedd a ysbeiliwyd, y llestri a'r llyfrau gwasanaeth.⁵⁹ Y mae'n rhaid fod Bangor wedi colli llyfrau yn ystod blynyddoedd gwrthryfel Llywelyn; beth bynnag, byddai ei harferion litwrgiaidd wedi eu hystyried yn hen ffasiwn erbyn 1284. A allai ymweliad Pecham fod wedi bod yn fodd i unioni'r diffygion hyn drwy drefnu i lyfrau newydd gael eu copïo? Nid oes ateb pendant i'r oedi o bum mlynedd ar hugain i bob golwg cyn cael esgoblyfr newydd ond y mae'n debyg fod y ffaith fod Pecham wedi mynnu fod yr eglwys Gymreig yn dechrau cydymffurfio cyn belled â phosibl â'r arferion yn Lloegr wedi peri bod yn rhaid copïo nifer o lyfrau newydd o batrymau Seisnig. Arfer Caersallog oedd yr un a ddefnyddid fwyaf yn nhalaith Caergaint, ac fel yn Nhyddewi, Arfer Caersallog fyddai'r patrwm mwyaf tebygol ar gyfer llyfr newydd. Daw yn llai annisgwyl yn yr hinsawdd hon o newid sylfaenol y byddai llyfr newydd ar gyfer Bangor a gopïwyd o batrwm Seisnig yn hepgor pob cyfeiriad at y seintiau Cymreig.

5 Repertoire cerddorol esgoblyfr Bangor

5.1 Cysylltiadau â Chaersallog

Nid yw'n hawdd dosbarthu esgoblyfrau: nid oeddynt erioed wedi eu safoni i'r un graddau â'r llyfrau offeren a gwasanaeth. Fodd bynnag, gallai dadansoddiad o'u cynnwys cerddorol awgrymu cysylltiad ag Arfer litwrgiaidd arbennig. Y mae llyfr Anian yn cynnwys 115 o eitemau cerddorol cyflawn; ceir hefyd nifer o destunau lle na chynhwysir y nodiant, a rhai cychwyneiriau. Ni chynhwysir eitemau swyddogaethol a lafargenid megis rhagymadroddion, ond fe restrir yr holl eitemau cerddorol eraill, gyda nodiant a hebdo yn Atodiad 1 (t.90). *Antiphona* yw pennawd y mwyafrif, ac maent yn amrywio o'r byr iawn a'r syml i alawon hwy a mwy melismatig. Ceir hefyd rai atebion ac un emyn, ynghyd â phriodau offeren ar gyfer cysegru eglwys.

Yn anarferol dewisodd y copïwr gopïo llawer o'r un eitemau yn eu ffurf gyflawn sawl tro: nodwedd anghyffredin mewn llyfr o'r cyfnod hwn. O'r herwydd y mae'r hyn a ymddengys ar yr olwg gyntaf yn repertoire tra sylweddol o gerddoriaeth wedyn yn mynd ychydig yn llai. Ailadroddir llawer o'r eitemau cerddorol mewn o leiaf ddwy seremoni ar wahân, ac yn aml ailadroddir dilyniant cyfan o antiffonau mewn rhan arall o'r llyfr. Ceir ailadrodd o'r fath rhwng seremonïau ar gyfer cysegru

allor oddi mewn i'r eglwys a'r tu allan iddi (naw eitem yn gyffredin); seremonïau ar gyfer gosod creiriau yn yr allor a chyflwyno creiriau (naw eitem yn gyffredin); adfer allor a gosod creiriau yn yr allor (naw eitem yn gyffredin) trefn gladdu a'r seremoni ar gyfer cludo'r corff i'r eglwys (naw eitem yn gyffredin). Cenir un antiffon, *Domine ad te dirigatur*, o fewn cymaint â chwe seremoni wahanol; cenir deg antiffon ar dri achlysur gwahanol, a chenir un ar hugain eitem ar ddau achlysur gwahanol. Gellir gweld yr holl ailadroddiadau yn Atodiad 2 (t.95), sy'n rhestru eitemau cerddorol yn nhrefn yr wyddor.

Y mae'r ailadrodd hwn yn cwtdogi cyfanswm ymddangosiadol o 115 eitem gerddorol i saith a thrigain yn unig (ac eithrio y cychwyneiriau a'r eitemau lle mae'r alaw wedi ei hepgor). Nid yw'n eglur pam y dewisodd y copiwr wneud copi cyfan o bob eitem ar gyfer pob achlysur dilynol: efallai iddo gael ei dalu am bob eitem a gopiwyd. Fodd bynnag, os oedd y seremonïau i gynnwys cerddoriaeth byddai'n rhaid i'r esgob yn ddiau fynd â'i gantorion ef ei hun i gynnal seremonïau esgobol yn rhai o'r eglwysi llai o fewn ei esgobaeth: mae'r cyfarwyddiadau yn sicr yn cyfeirio at *schola*. A yw'r llyfr o bosib yn gopi cyfeiriadol y byddai'r côr, efallai *schola* yr esgob ei hun, yn canu ohono? Y mae esgoblyfr Bangor yn fwy na rhai o'r esgoblyfrau Prydeinig eraill a byddai'n ddigon mawr i grŵp bychan o gantorion ei rannu.

Ceid llawer o'r eitemau a genid yn ystod seremonïau esgobol mewn rhannau eraill o'r litwrgi yn ogystal, ac o'r herwydd fe'u gwelir mewn categorïau eraill o lyfrau litwrgiaidd gyda cherddoriaeth. Y mae rhai o'r ailadroddiadau yn rhesymegol: cenid yr eitemau ar gyfer cyflwyno eglwys gan esgob hefyd ar ŵyl flynyddol cyflwyno'r eglwys neu ei hwythnoswyl, neu ar ŵyl y creiriau; ceir eitemau eraill o fewn gwasanaeth y merthyron a'r cyffeswyr, neu ar gyfer gŵyl yr Holl Saint.

O'r saith eitem a thrigain a ymddengys gyda nodiant cerddorol cyflawn yn esgoblyfr Anian gellir gweld cymaint â phumdeg a chwech mewn llyfrau Arfer Caersallog. Dengys dadansoddiad clòs o'r testun a'r gerddoriaeth fod cyfatebiaeth agos iawn ym mhob enghraifft bron iawn. Gellir gweld yr hanner cant a chwe eitem gyfatebol hyn yn y grŵp bychan o seremonïau cysylltiedig a restrir uchod.

5.2 Cymhariaeth ag esgoblyfr Caerefrog

Gellir cymharu'r esgoblyfr hefyd ag eitemau cerddorol a welir mewn esgoblyfrau Prydeinig eraill, er bod y nifer fechan o lyfrau cysylltiedig yn peri bod hon yn dasg gyfyngedig. Yn benodol, efallai mai'r prawf gorau er mwyn sefydlu cymhariaeth glòs rhwng dau esgoblyfr yw dadansoddi'r seremoni hirfaith ar gyfer cyflwyno eglwys sy'n gyffredin i bron pob esgoblyfr. Dyma'r seremoni sy'n agor esgoblyfr Anian, er bod y tudalennau coll yn golygu fod rhan gyntaf y seremoni ar goll. Yn y rhan fwyaf o esgoblyfrau y cyfnod mae'r cyflwyniad yn cynnwys repertoire mawr o tua deg antiffon a'r hugain (neu antiffonau ac atebion) a rennir yn wahanol adrannau. Y mae'r esgob yn gorymdeithio o gwmpas y tu allan i'r eglwys, yn olrhain dwy wyddor ar y llawr, yn eneinio'r allor a'r croesau cysegru, yn casglu'r creiriau ac yna yn eu gosod yn yr allor. Daw'r holl seremoni i ben ag offeren.⁶⁰ Y mae'r stoc o destunau cerddorol a ddefnyddid ar gyfer y cyflwyno yn weddol gyffredin ond gwelir gwahaniaeth rhyfeddol yn nhrefn cyflwyno'r eitemau.

Nid oes gan yr un o'r golygiadau o'r esgoblyfrau a argraffwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg seremoni gyflwyno sydd yn union yr un fath â'r fersiwn a geir yn esgoblyfr Anian. Llyfr Richard Lacy o bosib yw'r agosaf o ran y testun yn gyffredinol, ond llyfr yw hwn lle na nododd y copïwr unrhyw gerddoriaeth. Ceir nodiant yn llyfr David de Bernham (a gysylltir â St. Andrews) ond fel arall ni welir ynddo lawer o gyfatebiaethau trawiadol. Y mae esgoblyfr Caerefrog Christopher Bainbridge a'i nodiant cyflawn yn debycach o ran ei gynnwys cyffredinol, ond yma eto ceir rhai gwahaniaethau arwyddocaol, yn arbennig o fewn y repertoire cerddorol. Fodd bynnag, y mae'r gwahaniaethau melodig trwy oblygiad yn cadarnhau'r berthynas rhwng repertoire Bangor ac Arfer Caersallog.

Yn y gosodiadau gwrthgyferbyniol o *Stetit angelus* yn esgoblyfrau Caerefrog a Bangor ceir enghraifft glir o wahaniaeth cerddorol o'r fath. Yn esgoblyfr Caerefrog gosodwyd *Stetit angelus* yn sillafog. Y mae fersiwn Bangor yn hollol wahanol: ceir cymal ychwanegol yn y testun a melismatig yw'r gerddoriaeth yn bennaf.⁶¹ Ym mhrif gylch y litwrgi yn Arferion Caerefrog a Chaersallog cenir *Stetit angelus* ar ŵyl Sant Mihangel yr Archangel (29 Medi). Yn y Llyfr Antiffonau y mae'n salm-antiffon ar gyfer y Plygain; yn y raddolen y mae'n antiffon yr offrymiad yn yr Offeren. Defnyddia esgoblyfr Caerefrog y salm-antiffon sillafog; defnyddia esgoblyfr Bangor antiffon yr offrymiad (gyda'r testun hwy a'r siant felismatig) sydd yn cyfateb i raddolen Caersallog.

Ceir sawl enghraifft gyffelyb o wahaniaethau melodig a thestunol, ond o ran cytundeb cerddorol, y mae perthynas esgoblyfr Caerefrog â'r llyfrau eraill o fewn Arfer Caerefrog yn union yr un fath â pherthynas

llyfr Anian ag Arfer Caersallog. Y mae'r eitemau hynny sy'n unigryw i esgoblyfr Caerefrog hefyd yn unigryw i esgoblyfr Bangor, tra dyblygir eitemau heb fod yn unigryw o fewn grŵp cyffelyb o wyliau a geir mewn llyfrau litwrgiaidd eraill. Ffaith arall a ddaw yn amlwg o'r gymhariaeth hon yw na cheir rhai eitemau cerddorol ond mewn esgoblyfrau, sy'n awgrymu eu bod yn unigryw i seremonïau esgobol. Ceir deg eitem gyflawn unigryw 'esgobol' yn llyfr Anian ac un cychwynair unigryw heb nodiant: nodir y rhain yn Atodiad 2. Nid ymddengys yr un o'r eitemau hyn mewn unrhyw un o'r amrediad o lyfrau Caersallog sydd ar gael; fodd bynnag, gellid tybio mai siant 'Caersallog' yw pob un o bosib.

5.3 Cymhariaeth ag esgoblyfr Coventry

Byddai'r deg eitem ac un cychwynair hyn yn gwneud esgoblyfr Anian yn llyfr tra unigryw onibai bod llyfr arall tebyg iawn wedi goroesi: MS Ff.Vi.9 yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt. Esgoblyfr o'r drydedd ganrif ar ddeg yw hwn a wnaethpwyd yn ôl pob golwg ar gyfer esgob anhysbys yn esgobaeth Coventry a Chaerlwythgoed, sydd fel llyfr Anian, heb ei ddethol ohono erioed gan olygyddion y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w gyhoeddi.⁶² Y mae'n llai a'i gynnwys yn llai helaeth na llawysgrif Bangor ac ni cheir ynddo yr un o'r seremonïau anesgobol; fodd bynnag, mae'r nodiant yn gyflawn er mai anaml y ceir yr un eitem fwy nag unwaith. Y peth mwyaf arwyddocaol i ddibenion cymhariaeth glôs yw fod y darnau y gellir eu cymharu yn y seremonïau cyflwyno gan gynnwys ffurf estynedig o'r 'offrwm' *Stetit angelus*, yr un fath yn union yn esgoblyfrau Coventry a Bangor, felly hefyd lawer o'r repertoire cerddorol sy'n weddill: gallai copiwr Coventry bron iawn fod wedi copïo ei gerddoriaeth o'r un patrwm. Y mae'n fantais fod y cyffelybiaethau hyn yn ein galluogi i ail-lunio'r holl ddeunydd sydd ar goll o ddechrau llyfr Anian, gan y gellid tybio fod y ddwy eitem ar bymtheg gerddorol sy'n cychwyn cyflwyniad Coventry hefyd yn gyffredin i ddefod Bangor.

Ceir yn esgoblyfr Coventry wyth o'r un eitem ar ddeg gerddorol sydd yn esgoblyfr Anian ond nad ydynt ym mhrif lyfrau Caersallog. Y mae hyn yn gadael tair eitem yn unig sy'n digwydd yn esgoblyfr Bangor yn unig: *In civitate domini* ar gyfer bendithio cloch (gweler Plât 1, t.98), *Unguentum in capite* ar gyfer ethol esgob, a *Benedictus deus* ar gyfer cysegru archesgob (Plât 2, t.99). Fodd bynnag, y mae'r ddau lyfr gyda'i gilydd yn llenwi bwlch arwyddocaol o fewn y repertoire litwrgiaidd sydd ar glawr.

Ac ystyried holl amrediad llyfrau Caersallog sydd bellach ar gael i gerddoregwyr a haneswyr fel ffacsimiliau neu olygiadau, y mae'n rhyfedd na cheisiwyd erioed gyhoeddi esgoblyfr cyflawn yn gysylltiedig

â'r Arfer hon. Yr unig ymgais a gafwyd i lenwi'r bwlch oedd gan W. H. Henderson, a gyhoeddodd rannau o esgoblyfr Roger de Martivall o flynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar ddeg fel atodiad i Esgoblyfr Caerefrog ym 1875.⁶³ Y mae gan y ffynhonnell hon yn ddiau gysylltiadau â Chaersallog gan fod de Martivall yn esgob Caersallog rhwng 1315 a 1329, ond nid oes bron dim nodiant yn y llawysgrif a rhyw ddyrnaid yn unig o seremonïau. Anghyflawn yw, ysywaeth, fel cyfrwng cymhariaeth. Felly, erys diffyg esgoblyfr cyflawn yn fwch o fewn canon llyfrau golygedig Caersallog sy'n gyflawn fel arall, a hefyd o fewn yr amrediad o esgoblyfrau cyhoeddedig sydd ar gael: nid yw'n hawdd cael gafael ar nifer o seremonïau ac eitemau cerddorol unigryw o hyd. Y mae cyhoeddi llyfr Bangor, gan ddefnyddio ffynhonnell Coventry i adfer y tudalennau coll, yn ateb amlwg i ddatrys y diffyg hwn.

6 Diwedd glo

Rhaid cyfaddef nad yw esgoblyfr Anian yn dod â ni fymryn yn nes at ddod o hyd i Arfer coll Bangor: o safbwynt litwrgiaidd, peth dibwys yw ei 'Gymreictod'. Er y cadarnheir cysylltiadau â Bangor yn y tudalennau olaf, o East Anglia y daw'r cyfeiriadau rhanbarthol yn y prif destun ac yn y gwaith celf. Yn hyn o beth y mae'n cadarnhau darganfyddiadau cynharach Owain Edwards fod yn rhaid fod y mwyafrif o lyfrau litwrgiaidd Cymreig o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen wedi eu copïo o batrymau Seisnig. Eto, mae ei statws – ynghyd ag esgoblyfr Coventry – fel enghraifft o esgoblyfr Arfer Caersallog (sydd fel arall ar goll yn ei ffurf gyflawn) a helaethrwydd ei repertoire cerddorol yn ei wneud yn llyfr arbennig o bwysig.

Erys rhai cwestiynau i'w hateb ynglŷn â'r llyfr a'i batrwm neu batrymau: amrediad ei gynnwys y tu hwnt i'r defodau esgobol, y rheswm dros gyfeirio at Etheldreda yn y fendith ar gyfer lleian Fenedictaidd, pwy oedd Richard Christeshale, union natur y cysylltiadau â Clare a'r teulu Clare, a hyd yn oed y posibilrwydd mai copi o esgoblyfr Anian I yw'r llawysgrif a wnaethpwyd ar gyfer Anian II yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr hyn sy'n bwysig ar hyn o bryd yw sefydlu perthynas litwrgiaidd a cherddorol y llawysgrif ag Arfer Caersallog ar adeg yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg pan oedd yr Arfer honno yn dod yn normadol ym mwyafrif yr esgobaethau Prydeinig, gan gynnwys rhai Cymru.

Cyfieithwyd gan yr Uned Gyfieithu, Prifysgol Cymru, Bangor

Nodiadau

¹ Y mae atgynhyrchiad o'r addurniad ar gael ar ffurf cerdyn Nadolig o'r Uned Cysylltiadau Cyhoeddus a Hysbysrwydd, Prifysgol Cymru, Bangor. Gellir ei weld hefyd yn J. Alexander a P. Binski (gol.) *Age of Chivalry: Art in Plantagenet England 1200–1400* (London, 1987), 236, a L. F. Sandler, *Gothic Manuscripts 1285–1385*, 2 cyf., A Survey of Manuscripts Illuminated in the British Isles, v (London, 1986), 1, rhif 69.

² Neil Ker, *Medieval Manuscripts in British Libraries*, II (Oxford, 1977), 48–53.

³ Ker, *ibid.*; L. F. Sandler yn Alexander a Binski, *op. cit.*, eitemau 69 a 109; Michael A. Michael, 'The Harnhulle Psalter-Hours: An Early Fourteenth-Century English Illuminated Manuscript at Downside Abbey', *Journal of the British Archaeological Association*, 134 (1981), 81–99; Lynda Dennison, 'Liber Horn, Liber Custumarum and Other Manuscripts of the Queen Mary Psalter Workshops', yn Lindy Grant (gol.) *Medieval Art, Architecture and Archaeology in London* (British Archaeological Conference Transactions for the year 1984), 118–31; Thomas Davies Kozachek, 'The Medieval English Ordo for Blessing Churches', papur anghyhoeddedig, 21ain gynhadledd Cerddoriaeth yr Oesoedd Canol a'r Dadeni, Prifysgol Cymru, Bangor, Gorffennaf 1993. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar iawn i Daniel Huws, Yr Athro Owain Edwards a'r Athro Richard Pfaff am eu sylwadau ar yr erthygl hon.

⁴ Joanna Melville-Richards, 'The Bangor Pontifical' (Prifysgol Cymru, Bangor, traethawd B.Mus., 1993).

⁵ T. J. Morris, 'The Liber Pontificalis Aniani of Bangor', *Anglesey Antiquarian Society and Field Club/ Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn* (1962), 55–85.

⁶ Browne Willis, *Survey of Bangor Cathedral* (London, 1721), 69–72.

⁷ Parch. J. Endell Tyler, Rheithor St. Giles, Llundain, mewn llythyr at Ddeon Bangor a ddyddiwyd 2 Medi 1840; rhwymir hwn yn y llyfr fel ffos. 1–3.

⁸ William Maskell, *Monumenta ritualia ecclesiae Anglicanae* (Oxford, 1846), I, cxvi–cxviii.

⁹ Rhwymwyd trawsgrifiadau Stowe bellach yn y llyfr fel ffo. 165.

¹⁰ W. G. Henderson (gol.), *Liber pontificalis Christopher Bainbridge*, Surtees Society, 61 (1875); Henderson (gol.) *York Missal*, 2 cyf., Surtees Society, 59–60 (1874); Henderson (gol.) *Manual and Processional of York*, Surtees Society, 63 (1875); Christopher Wordsworth (gol.), *Pontifical offices used by David de Bernham* (Edinburgh, 1885); Ralph Barnes (gol.), *Liber pontificalis of Edmund Lacy, Bishop of Exeter* (Exeter, 1847).

¹¹ Henderson, *Christopher Bainbridge*, xxxv–xxxvii; Henderson, *Manual and Processional*, 194*–203*; Wordsworth, *op. cit.*, 77–80; 85–95.

¹² Am restr gyflawn o'r holl esgoblyfrau a oroesodd yng Nghymru a Lloegr, gweler J. Brückmann, 'Pontificals in England and Wales', *Traditio*, 29

(1973), 391–458, a rhestr Henderson o esgoblyfrau yn *Christopher Bainbridge*, ix–xliv.

¹³ Yr argraffiad modern mwyaf hygyrch o lawlyfr Arfer Caersallog yw A. Jeffries Collins (gol.), *The Sarum Manual*, Henry Bradshaw Society, 91 (1960).

¹⁴ J. Endell Tyler, op. cit.

¹⁵ Kozachek, op. cit. Nid wyf cael cyfle eto i ddarllen esgoblyfr Longleat.

¹⁶ Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation*, ail arg. (Cardiff, 1976), 13; Christopher Harper-Bill (gol.), *The Cartulary of the Augustinian Friars of Clare*, Suffolk Records Society, 11 (1991), 95.

¹⁷ Browne Willis, op. cit., 21; Glanmor Williams, op. cit., 66.

¹⁸ Yr wyf yn ddiolchgar i Tony Conran am y sylwadau hyn; nododd fod Elidir Sais, bardd llys a ganai gerddi crefyddol yn hwyr yn y ddeuddegfed ganrif, wedi cael yr un llysenw.

¹⁹ Maskell, *The Ancient Liturgy of the Church of England*, 3ydd arg. (Oxford, 1882); gweler hefyd A. J. Collins, 'The Bangor Missal', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 4 (1945), 57–60.

²⁰ Y mae'r addewid cyntaf gan Wilhelmus de Hertwell, o esgobaeth Lincoln, yr ail gan Willelmus de Colnaham o esgobaeth Coventry a Chaerlwythgoed. Methais â darganfod rhagor o dystiolaeth yn unman am yr enwau hyn.

²¹ Yr Esgob John Clederowe (1423–35) neu yr Esgob John Stanbury (1448–53) fe dybir.

²² Mae dyddiadau'r gwahanol lawysgrifen y cyfeirir atynt yma yn dilyn Neil Ker, op. cit.

²³ Daniel Huws, 'The earliest Bangor Missal', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 27 (1991), 119.

²⁴ Y seintiau y cadwyd eu henwau yn y litani a ddifrodwyd ar ffos. 7–8 yw Lambert, Vincent, Edmund, Alban, Thomas ac Alphege: mae gan y pedwar olaf gysylltiadau Seisnig.

²⁵ Neil Ker, *Medieval Libraries of Great Britain: A List of Surviving Books*, ail arg. (London, 1964).

²⁶ Noda Huws mai ychydig iawn o gyfeiriadau a geir at Ddeiniol Sant yn y llawysgrifau litwrgiaidd hynny sydd ar glawr. Heblaw am yr ychwanegiadau hyn o'r unfed ganrif ar bymtheg, yr unig wasanaeth arall hysbys a oroesodd yw'r un yn AB MS Peniarth 225, llawysgrif hynafiaethol gan Thomas Wiliems [sic] o Drefriw a gopiodd naw llith a cholect *ex libro manuscripto antiquo* ym 1602. Ceir amryw o gyfeiriadau at Ddeiniol mewn merthyriaduron cynnar ond nid oes unrhyw *Vita* wedi goroesi. Huws, op. cit., 121.

²⁷ *Ibid.*, 127.

²⁸ Owain Tudor Edwards, *Matins, Lauds and Vespers for St David's Day: The Medieval Office of the Welsh Patron Saint in National Library of Wales MS 20541 E* (Woodbridge, 1990).

²⁹ Noda Edwards mai deugain a dau yn unig o'r 6,000 o eitemau a archwiliwyd gan y diweddar Neil Ker a gysylltir â thai crefydd Cymreig, a dynnid yn unig o'r rhain sy'n litwrgiaidd. Ymddengys fod llawer o lyfrau a ddefnyddid gan sefydliadau Cymreig wedi eu copïo yn Lloegr. Edwards, op. cit., 144.

³⁰ Sylwer, fodd bynnag, na chydabyddid gŵyl Dewi Sant yn swyddogol yng Nghalendr Caersallog tan 1398, pan orchynnodd yr Archesgob Roger Walden ei bod i'w dathlu drwy holl dalaith Caergaint ar 1 Mawrth *cum ix lectionibus, et caeteris omnibus ad officium sanctorum*. Gweler Edwards, op. cit., 146 o David Wilkins (gol.), *Concilia magnae Britannicae et Hiberniae* (London, 1737), III, 234.

³¹ Edwards, op. cit., 151, o A. W. Haddan a W. Stubbs (gol.), *Councils and Ecclesiastical Documents Relating to Great Britain and Ireland* (Oxford, 1873–8), I, 459 yn dyfynnu *Lbl MS Harley 1249*.

³² Edwards, op. cit., 152–3, o J. C. Davies, *Episcopal Acts Relating to the Welsh Diocese, 1066–1272* (Cardiff, 1946–8), 386–9.

³³ Edwards, op. cit., 155, o William Greenway, 'The Bishop and Chapters of St David's c.1280–1407' (Prifysgol Caergrawnt, traethawd M.Litt, 1959), 133–4.

³⁴ L. F. Sandler yn Alexander a Binski, op. cit., 236.

³⁵ Y mae hyn yn gwrthdweud y ddamcaniaeth gynharach fod holl arlunwyr Ysgol Sallwyr y Frenhines Mari yn gysylltiedig â Llundain. Gellir dyddio'r holl lawysgrifau sy'n perthyn i grŵp Sallwyr y Frenhines Mari ei hun ar ôl tua 1320 ac maent yn dangos 'direct contacts with illuminators who appear to be indigenous to London'. Michael, op. cit., 89.

³⁶ Dennison, op. cit.

³⁷ Ibid., 128.

³⁸ Ibid., 123.

³⁹ Henderson, *Christopher Bainbridge*, xxxv.

⁴⁰ Peter Draper, 'Bishop Northwold and the Cult of Saint Etheldreda', yn Nicola Coldstream a Peter Draper (gol.), *Medieval Art and Architecture in East Anglia* (1979), 8–27. A chymryd y gwneid datganiad lleian gerbron yr abades, y mae'n rhaid ei bod wedi ei defnyddio fel seremoni dderbyn ar gyfer abaty Benedictaidd yn hytrach na phriordy: un abaty yn unig o'r fath, sef Chatteris, a fodolai yn esgobaeth Ely. Cyflwynwyd Chatteris i'r Forwyn Fair ond gellid tybio ei fod dan nawdd Ely a thrwy oblygiad, nawdd Etheldreda hithau.

⁴¹ Knowles a Hadcock, *Medieval Religious Houses: England and Wales*, ail arg. (Harlow, 1971), 279. Yr oedd Maud (née de Lacy) yn weddw i Richard de Clare, sefydlydd tŷ'r brodyr Awstinaidd yn Clare a drafodir yn adran 3.3. Rheolai draean o stadau helaeth y teulu Clare, gan gynnwys Clare ei hun a

thiroedd yn Ne Cymru, rhwng 1263 (blwyddyn y setliad agweddi a wnaethpwyd gan Harri III) a'i marwolaeth ym 1289. Y mae'n rhaid ei bod yn flaenllaw yn Clare ar adeg ymweliad Anian ym 1279. Nid yw'n eglur eto pam yr oedd Maud yn gefnogol i'r Santes Etheldreda yn Canonsleigh. Fodd bynnag, ymddengys fod Clare, a Maud yn benodol, yn nodwedd gyffredin o ran Etheldreda, Canonsleigh ac esgoblyfr Bangor.

⁴² J. Goronwy Edwards (gol.), *Calendar of Ancient Correspondence Concerning Wales* (Cardiff, 1935), 47.

⁴³ Dyfynir cyfieithiad o destun y llythyrau, o *Lbl MS Harley 4835* allan o gyfrol Christopher Harper-Bill (gol.), *The Cartulary of the Augustinian Friars of Clare*, Suffolk Records Society, 11 (1991), 94–5. Ymddengys y fersiynau Lladin gwreiddiol yn F.-X. Roth, *The English Austin Friars, 1249–1538* (New York, 1961–6), II, eitem 63.

Y mae Anian, esgob Bangor [Bangoren'], yn ffyddiog o drugaredd Duw Hollalluog ac o deilyngdod y Forwyn ogoneddus, Ei fam, y Seintiau Pedr a Phaul yr apostolion, Deiniol Sant esgob a chyffeswr a'r holl saint, yn rhoi i'w holl blwyfolion ac i rai'r esgobion eraill a gadarnhao'r maddeuant hwn sydd yn wir edifeiriol am eu pechodau ac wedi cyffesu ac sydd yn dod i dŷ brodyr Awstinaidd Clare ac yno yn gweddïo dros enaid Richard o Chrishall (Cristeshale) y mae ei gorff wedi ei gladdu o flaen cabidyldy'r brodyr, a thros eneidiau'r holl ffyddloniaid ymadawedig, gan adrodd yn dduwiolfrydig Weddi'r Arglwydd a'r Henffych Fair, ollyngdod o ddeng niwrnod o benyd a orchmynnwyd. Seliwyd. Clare, 25 Ebrill, 1279.

Y mae Anian, esgob Bangor, yn ffyddiog o drugaredd Duw Hollalluog ac o deilyngdod y Forwyn ogoneddus, Ei Fam, y Seintiau Pedr a Phaul yr apostolion, Deiniol Sant a'r holl saint, yn rhoi i'w holl blwyfolion ac i rai'r esgobion eraill a gadarnhao'r maddeuant hwn, sydd yn wir edifeiriol am eu pechodau ac wedi cyffesu ac sydd yn ymweld â brodyr Awstinaidd Clare mewn defosiwn, ar bererindod, i weddïo neu i wrando ar bregethau ac sydd yn cerdded o gwmpas y fynwent, neu sydd yn rhoi o'u heiddo elusen dduwiolfrydig ar gyfer adeiladu neu atgyweirio'r tŷ neu ar gyfer unrhyw wasanaeth cymynnol i'r meirwon, ac sydd yn gweddïo dros eneidiau'r holl ffyddloniaid ymadawedig a orffwysa yno neu yn rhywle arall, a thros enaid yr Esgob Anian ei hun, a gysegrodd y fynwent ar ddiwrnod coffau'r cysegru neu ar unrhyw ddiwrnod arall trwy gydol y flwyddyn, ollyngdod o ugain niwrnod o benyd a orchmynnwyd. Seliwyd. Clare, 24 Ebrill, 1279.

⁴⁴ Michael Altschul, *A Baronial Family in Medieval England: The Clares, 1217–1314* (Baltimore, 1965).

⁴⁵ Harper-Bill, op. cit., 94.

⁴⁶ Ibid., rhifau 147 a 151; mae rhifau 111, 123, 150 a 152 hefyd yn cyfeirio at fenthycia llyfrau. Gweler hefyd T. J. Morris, op. cit., 75.

⁴⁷ *Lbl* MS Add. 6157 a *Ctc* MS B119, sef dau esgoblyfr o Gaergaint a gopiwyd yn y bymthegfed ganrif, a *Lbl* MS Add. 21974, offeren esgobol o'r unfed ganrif ar bymtheg ddaeth yn uniongyrchol o Lincoln.

⁴⁸ *Omnibus vero catholicis vere contritis et confessis dictas processiones sequentibus . . . dies indulgentiae, singulis vicibus quibus ea sic federint, de Dei pietate, et Suae sanctissimae matris, et S. Thomae Martyris aliorum sanctorum meritis confidentes, concedimus gratiose.* Haddan a Stubbs, op. cit., I, 616.

⁴⁹ D. H. Farmer, *Oxford Dictionary of Saints* (Oxford, 1978).

⁵⁰ Stephen Van Dijk a Joan Hazelden Walker, *The Origins of the Modern Roman Liturgy: The Liturgy of the Papal Court and the Franciscan Order in the Thirteenth Century* (London, 1960), 387.

⁵¹ Yr oedd y brodyr yn sicr yn bwysig ym Mangor, er nad Brodyr Llwydion oedd y rhai mwyaf blaenllaw. Sefydlwyd tŷ Dominicaidd y brodyr duon ym Mangor ym 1265 gan Llewelyn ap Gruffydd, a phenodwyd dim llai nag wyth brawd yn esgob Bangor rhwng 1357 a 1494, chwech ohonynt yn frodyr duon a dau yn frodyr gwynion.

⁵² Edwards, op. cit., 167, o Andrew Hughes, 'Modal Order and Disorder in the Rhymed Office', *Musica Disciplina*, 37 (1983), 29–52; gweler hefyd Douie, op. cit., 12.

⁵³ Kozachek, op. cit.

⁵⁴ Douie, op. cit., 262.

⁵⁵ Efallai fod gorchmynion Pecham wedi ffurfio sail cynulliad Anian o holl offeiriaid yr esgobaeth yng Ngarthbrannan ym 1291, a nodwyd yng nghefn yr esgoblyfr ar ffo. 166.

⁵⁶ Douie, op. cit., 263.

⁵⁷ Ibid., 263 o C. Trice-Martin (gol.), *Registrum epistolarum Iohannis Peckham, archiepiscopi Cantuariensis* (1882–5), Rolls Series, 742.

⁵⁸ Glanmor Williams, op. cit., 45.

⁵⁹ Haddan a Stubbs, op. cit., IV, 557 a 560; gweler hefyd Douie, op. cit., 260 o *Littere Wallie*, 107–8 (Baladeulyn, 15 Mehefin 1284).

⁶⁰ Trafodwyd fersiynau amrywiadol gan Kozachek, op. cit.

⁶¹ Defodau gosod creiriau mewn allor (ffo. 17v), cyflwyno creiriau (ffo. 28v), ailgysegru allor (ffo. 41r).

⁶² Gellir casglu o ble y daeth o seremoni proffes abad ar ffo. 58v: *Ego N Ecclesiae electus Abbas profiteor tibi Pater N Conventris Episcopae*; esgobaeth Coventry a Chaerlwythgoed oedd yma mewn gwirionedd.

⁶³ Henderson, *Christopher Bainbridge*, 199–234.